A handwritten signature in black ink, reading "Tina Donnelly". The signature is written in a cursive style with a large initial 'T' and 'D'.

**TINA DONNELLY, CBE, TD, DL, FRCN, CCMi
DIRECTOR, RCN WALES**

Public Accounts Committee

Inquiry into NHS Informatics Services

Additional information from Andrew Griffiths, Director of NHS Wales Informatics Service

Following the PAC meeting we've looked at any double running costs being incurred. The supplier costs are shown in the table below along with the organisations funding them. In addition to telepath costs (awaiting implementation of blood transfusion module) the GP links software requires a software upgrade from one of the GP system suppliers before the legacy system can be fully retired. Those costs (in thousands) are also shown in the table below.

Services:	AB	ABMU	BCU	C&V	CT	HD	Powys	PHW	Vel	Total
Laboratory Information Management System (LIMS)	79	133	99	73	42	83	0	0	0	509
National GP Links	0	9	9	9	0	9	0	0	0	36
Total	79	142	108	82	42	92	0	0	0	545

With regard to My Health Online the number of confirmed registered users is 219,275.

Andrew Griffiths

4 May 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660


info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd Pierhead
Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod: HVT2834/caf

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Ebrill 2018



Ymchwiliad Pwyllgor – Cyflwr Ffyrdd yng Nghymru

Nodais fwriad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) i ymgymryd ag ymchwiliad i 'Gyflwr Ffyrdd yng Nghymru'. Bu staff Swyddfa Archwilio Cymru a minnau yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) yn y Pedwerydd Cynulliad fel rhan o'i ymchwiliad i 'Werth am Arian y Buddsoddiad mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd'. Gwn y bydd staff ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwnnw yn cynorthwyo gwaith Pwyllgor yr ESS a'u bod yn gyfarwydd iawn â'r materion a godwyd. Roeddent yn adeiladu ar fy adroddiad i fy hun ym mis Ionawr 2011 ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr.

Rhydd cwmpas ymchwiliad Pwyllgor yr ESS gyfle i ddilyn llawer o'r materion yr ymdriniai gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus â hwy. Er enghraifft, argymhellai'r PCC y dylai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o adolygiad allanol parhaus o asiantau'r cefnffyrdd, fanteision ac anfanteision sefydlu un asiant cefnffyrdd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio i'r PCC bod adolygiad gan asiantaeth gefnffyrdd yn ystyried mai'r trefniant gorau oedd y model dau asiant (Gogledd a De Cymru). Fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar gyflawni £14 miliwn o arbedion cost posibl, oedd wedi eu nodi dros flynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18. Ym mis Rhagfyr 2017, cawsom ar ddeall fod yr arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17 yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan ymgynghorwyr allanol, gydag asiantaethau'r cefnffyrdd yn adrodd eu bod ar y ffordd i gyflawni'r lefel gyffredinol o arbedion a ddisgwyliid.

Nid wyf wedi ymgymryd ag unrhyw waith archwilio manwl fy hun yn dilyn y materion a godwyd yn fy adroddiad yn 2011 na'r ymchwiliad diweddarach gan y PCC. Fodd bynnag, rwyf wedi ystyried yn y blynyddoedd diwethaf faterion a godwyd mewn gohebiaeth ynghylch nifer o brosiectau ffyrdd. Fel y gwyddoch, mae esiamplau o'r fath yn cynnwys y costau cynyddol a'r amserlen estynedig ar gyfer cwblhau Adran 2 o'r A465 a sylwaf fod datganiad y Pwyllgor i'r wasg ynghylch yr ymchwiliad yn cyfeirio at y prosiect hwn. Yn yr un modd, soniai'r datganiad i'r wasg am Ffordd Osgoi yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Bûm yn ystyried gohebiaeth ynghylch datblygiad cynnar y prosiect hwnnw yn 2014.

Yn achos Adran 2 yr A465, mae Staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau rhai ymholiadau archwilio rhagarweiniol ar fy rhan er mwyn deall hanes y prosiect yn well a'r materion sydd wedi effeithio ar y costau a'r amserlen. Rhan o'r gwaith hwnnw oedd ymweliad diweddar â'r safle. Ar hyn o bryd, nid wyf wedi gwneud penderfyniad pendant ynghylch adrodd yn gyhoeddus am y mater hwn a'r ffurf y gallai hynny ei gymryd, a all fod angen gwaith archwilio pellach eto i edrych i mewn i hanes y prosiect yn fanylach. Mae'n fwriad gennyf hefyd gymryd barn y PCC i ystyriaeth. Fodd bynnag, rwyf yn cadw mewn cof fod adolygiad Llywodraeth Cymru o'r prosiect yn parhau a bod y Llywodraeth yn gweithio gyda'r contractwr (Costain) gan ddefnyddio mecanweithiau yng nghytundeb y prosiect i ddatrys unrhyw faterion sy'n ddadleuol.

Er hynny, nodaf ddiddordeb y Pwyllgor yn y dull o Gynnwys y Contractwr yn Gynnar (*Early Contractor Involvement*) (ECI). Er y bydd pob prosiect yn wahanol, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru feddwl dros unrhyw wersi a ddysgwyd o ddefnyddio'r dull ECI gydag Adran 2 yr A465, o gofio'r problemau cost ac amserlen sydd wedi codi. Ar adeg fy adroddiad i yn 2011, roedd Llywodraeth Cymru wedi symud tuag at ECI fel y dull o ddewis ar gyfer contractau oedd yn werth mwy na £18 miliwn. Fodd bynnag, cymharol ychydig o enghreifftiau oedd yn bod ar y pryd o brosiectau a gwblhawyd yng Nghymru oedd wedi defnyddio'r dull hwn. Cymysg hefyd oedd y dystiolaeth o Loegr, lle roedd Adolygiad Asiantaeth Briffyrdd wedi dod i'r casgliad bod ECI wedi bod o gymorth i gyflawni prosiectau yn gynt, gyda llai o newidiadau i'r fanyleb yn ystod y gwaith adeiladu a safon uwch o saerniaeth. Ond roedd y dystiolaeth yn nhermau costau'r prosiect yn llai pendant.

Ers 2011, ac yn dilyn gwaith a wnaed mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, daeth adolygiad gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i'r casgliad bod yna fuddion mewn ymgysylltu'n fuan â'r gadwyn gyflenwi ac y gallai contractau is eu gwerth hefyd elwa o ymgysylltu'n gynnar â chontractwyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y PCC y câi'r canllawiau eu diwygio er mwyn pwysleisio y dylid ystyried ECI ar gyfer contractau adeiladu, waeth beth fo'u gwerth.

Yn olaf, mae'n fwriad gan y Pwyllgor ystyried y cyfleoedd a gynigir gan Fodel Cyd-fuddsoddi (*Mutual Investment Model*) (MIM). Mae'r PCC yn bwriadu derbyn tystiolaeth yn nes ymlaen yn nhymor yr haf ar raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a disgwyliaf y bydd yn archwilio cymhwyso MIM i Fand B y rhaglen. Er bod y meysydd polisi yn amlwg yn wahanol, mae'n debygol y bydd yna rai themâu cyffredin y bydd y ddau Bwyllgor yn archwilio iddynt oddeutu'r un amser. Efallai y byddai'n werth cael sgwrs bellach ynghylch llinellau ymholi posibl rhwng y timau clericio/ymchwilwyr priodol a Staff Swyddfa Archwilio Cymru, fydd yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyllid Cyhoeddus.

In gŵi



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

cc: Mr Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ken Skates AC/AM

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC

Cadeirydd

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

09 Mai 2018

Annwyl Nick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mawrth 2018 yn gofyn am gopi o bapur y Cabinet dyddiedig 27 Mehefin 2017 ynghylch prosiect Cylchffordd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod swyddogaeth bwysig y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o safbwynt helpu i sicrhau bod safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus yn cael eu cynnal ac rydym yn ceisio helpu'r Pwyllgor â'i waith ymhob ffordd bosibl. Rwyf hefyd yn cydnabod y sicrwydd y gwnaethoch ei nodi yn y llythyr ynghylch sut y byddech yn ymdrin â natur gyfrinachol y papur ei hun.

Rwyf wedi ystyried eich cais yn ofalus ac wedi ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y mater hwn. Rydym yn teimlo, fodd bynnag, na allwn gytuno i ryddhau'r papur. Rwyf i a'r Prif Weinidog yn fodlon bod y swyddogion allweddol yn ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol tra roeddent yn paratoi'r cyngor a nodwyd ym mhapur y Cabinet. Rydym hefyd o'r farn fod y papur yn ddigon cynhwysfawr er mwyn galluogi aelodau eraill y Cabinet i wneud penderfyniad terfynol ynghylch y prosiect. Er fy mod yn derbyn y byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld y papur ei hun fel rhan o'i waith, rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r confensiynau arferol ynghylch dal yn ôl bapurau sensitif y Cabinet er mwyn gwarchod preifatrwydd trafodaethau polisi a masnachol y Llywodraeth fod yn berthnasol i'r achos hwn.

Mae'n ddrwg gen i na allaf roi ymateb mwy positif i chi ac rwy'n gobeithio y bydd eich Pwyllgor yn deall y rhesymau pam na allwn gytuno i'r cais hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken'.

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

6 Mawrth 2018

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2018, dyma fy ymateb llawn, sy'n seiliedig ar ymgynghoriad ehangach gyda GIG Cymru.

Hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am eich adroddiad ar systemau gwybodeg GIG Cymru a'r gwaith y mae tîm yr astudiaeth wedi ei wneud ar hyn dros y 18 mis diwethaf.

Rwy'n falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod bod gan GIG Cymru weledigaeth glir ar gyfer y cofnod cleifion electronig yng Nghymru, ac er fy mod yn cydnabod ein bod yn wynebu rhai heriau, rwy'n hyderus ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol, hyd yn oed yn yr amser ers i'ch tîm gynnal yr adolygiad, ac y byddwn yn parhau i ysgogi gwelliannau yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r anawsterau o ran sicrhau digon o gyllid i fwrw ymlaen â'r weledigaeth; yr angen i gryfhau prosesau blaenoriaethu; a'r angen i adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (y Gwasanaeth Gwybodeg). Mae'r adroddiad yn cymeradwyo llawer o'r gwaith sydd gennym ar y gweill.

Mae Argymhelliad 7 Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn ategu nifer o ganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn hynny o beth bydd y camau a gymerwn yn dilyn eich adroddiad hefyd yn cael eu llywio gan ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol. Bydd ein Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gaiff ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2018, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd - a'r camau y disgwyliwn i bartneriaid y GIG a gofal cymdeithasol eu cymryd - i wneud y defnydd gorau o wybodeg a ffyrdd digidol o weithio'n fwy cyffredinol.



Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r tri ar ddeg o argymhellion a gynhwysir ynddo.

Mae Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru (y Bwrdd Rheoli Gwybodeg) yn goruchwylio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn GIG Cymru ac yn llywio'r agenda strategol ar gyfer system sy'n seiliedig ar ddata, sy'n cefnogi mynediad gwell i wybodaeth a chyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gofal gyda thechnolegau digidol. Diwygiwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Rheoli Gwybodeg y llynedd. Cafodd ei ddiben ei gryfhau i gwmpasu'r cyfrifoldeb dros gyflawni 'Iechyd a Gofal Gwybodus: strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ddigidol ar gyfer Cymru' (y Strategaeth). Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth i '[d]rawsnewid sut y mae pobl Cymru, ein dinasyddion a'n staff, yn croesawu technoleg gwybodaeth fodern ac offer digidol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy diogel, mwy effeithlon a chyson i wella canlyniadau a phrofiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth'.

Bwrdd Portffolio yw'r Bwrdd Rheoli Gwybodeg ac mae'n gyfrifol am gyflwyno rhaglenni (a phrosiectau) a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal Gwybodus (y rhaglenni) ac mae'n creu amgylchedd lle y gall rhaglenni lwyddo i gyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r manteision gael eu gwireddu.

Mae'r Bwrdd yn darparu sicrwydd a chynghor i Lywodraeth Cymru, ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gweithredol GIG Cymru ar bob agwedd ar Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth.

Argymhelliad 1 Mae'r weledigaeth ar gyfer gwybodeg, sef creu cofnodion electronig am gleifion fesul cam yn glir ac roedd y rhesymwaith ar ei chyfer yn glir pan gafodd ei sefydlu gyntaf ar ôl strategaeth 2003. Fodd bynnag, mae'r farchnad a'r gymuned wybodeg wedi symud ymlaen yn sylweddol ers hynny. Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â'r Gwasanaeth Gwybodeg a chyrrff y GIG, adolygu'r farchnad wybodeg i brofi a yw'n cynnig cyfleoedd newydd i wireddu nodau'r Strategaeth.

Derbyn - Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'n dull o gynllunio seilwaith a systemau fel rhan o flaengynllun gwaith Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru (y Bwrdd Rheoli Gwybodeg) ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd ac arfer gorau.

Argymhelliad 2 Mae GIG Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i geisio egluro ystyr ymagwedd 'Unwaith i Gymru' at ddatblygu a lledaenu systemau gwybodeg. Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â'r Gwasanaeth Gwybodeg a chyrrff y GIG:

- a) ddiffinio'n glir y cydbwysedd rhwng systemau cenedlaethol dan arweiniad y Gwasanaeth Gwybodeg a systemau sy'n cael eu harwain yn lleol, a beth yw cyfrifoldebau'r naill a'r llall;
- b) sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol a chenedlaethol yn cael eu diweddarau i adlewyrchu unrhyw oblygiadau ar gyfer cyllido, datblygu a lledaenu systemau gwybodeg yn sgil yr ymagwedd fwy eglur at Unwaith i Gymru; a

- c) blaenoriaethu datblygu set o safonau cyffredin er mwyn sicrhau bod systemau a gaffaelir neu a ddatblygir yn lleol yn gydnaws â systemau lleol eraill a'r systemau cenedlaethol.

Derbyn - Mae'r Bwrdd Rheol Gwybodeg wedi cytuno ar ddiffiniad ar gyfer 'Unwaith i Gymru' ac ar restr o wasanaethau a swyddogaethau sydd fwyaf addas ar gyfer y dull gweithredu. Bydd y cydbwysedd a'r priod gyfrifoldebau rhwng systemau lleol a chenedlaethol yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith adolygu a ddisgrifir yn ein hymateb i Argymhelliad 1, a bydd yn llywio cynlluniau lleol a chenedlaethol.

Bydd 'Bwrdd Safonau Technegol Cymru' yn cael ei sefydlu erbyn mis Mai 2018 a bydd yn canolbwyntio ar safonau Rhyngweithredu technegol. Bydd y Bwrdd yn gweithio ar y cyd â Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ddata a safonau Gwybodaeth. Gyda'i gilydd, bydd y ddau Fwrdd hyn yn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno a chynnal catalog o safonau a gofynion i alluogi integreiddio a rhyngweithredu ar draws pob system iechyd a gofal.

Argymhelliad 3 Gwelsom nad yw'r GIG wedi sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer gwybodeg. Dylai Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Gwybodeg a chyrrff y GIG gytuno ar set glir o flaenoriaethau y mae modd eu cyflawni ar gyfer gwybodeg genedlaethol gan ochel rhag ychwanegu blaenoriaethau newydd heb ddadflaenoriaethu rhywbeth arall neu heb ychwanegu adnoddau newydd.

Derbyn - Fel y nodais yn fy ymateb cychwynnol a thrwy gymeradwyo'r adroddiad, rydym eisoes wedi datblygu proses flaenoriaethu well er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a chefnogi amrywiol systemau. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, bydd y Bwrdd Rheoli Gwybodeg yn ystyried Cynllun Cenedlaethol tymor byr a flaenoriaethwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu'r Bwrdd i barhau â'r gwaith blaenoriaethu, gan ystyried argymhelliad yr Adolygiad Seneddol i "aros, dechrau a chyflymu". Bydd y Cynllun Cenedlaethol yn cynnwys proses, wedi'i goruchwyllo gan y Bwrdd Rheoli Gwybodeg, i adolygu'r blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn, a bydd y Bwrdd hwn yn cynghori Bwrdd Gweithredol y GIG a Llywodraeth Cymru ar benderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethu a buddsoddi.

Argymhelliad 4 Mae llawer o'r problemau a'r ystyriaethau ynglŷn â rhwystrau rhag gwneud cynnydd a welsom yn ystod ein gwaith maes yn rhai y sylwyd arnynt ers tro. Dylai Llywodraeth Cymru, cyrrff y GIG a'r Gwasanaeth Gwybodeg gynhyrchu asesiad agored a gonest o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb weithio hyd yn hyn a chynhyrchu cynllun clir a gyd-berchnogir er mwyn goresgyn y rhwystrau y gwyddys eu bod yn atal cynnydd. Dylai'r dogfennau hyn fod yn y parth cyhoeddus er mwyn i staff y GIG allu gweld bod eu pryderon wedi'u cydnabod a'u bod yn cael sylw.

Derbyn - Fel rhan o'n hadolygiadau o ddylunio seilwaith a systemau (Argymhelliad 1) a threfniadau llywodraethu (Argymhelliad 6), bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ein hymagwedd at ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau a systemau. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o gynnydd hyd yma a sut y gellir goresgyn rhwystrau rhag cynnydd, a byddant yn cael eu datblygu fel rhan o flaengynllun gwaith y Bwrdd Rheoli Gwybodeg ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Argymhelliad 5 Gwelsom fod cryn le i gryfhau arweiniad cenedlaethol a lleol ym maes gwybodeg ar draws y GIG. Dylai Llywodraeth Cymru:

- a) gydweithio â chyrrff y GIG i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau'r gynrychiolaeth o'r maes gwybodeg ar lefel y bwrdd, gan gynnwys adolygu rhagoriaethau rôl Uwch Swyddog Gwybodaeth Clinigol ar lefel y bwrdd (neu rywun mewn rôl gyfatebol);
- b) gweithio gyda chyrrff y GIG i ddatblygu cynllun gweithredu clir er mwyn datblygu corff o uwch staff gwybodeg-glinigol, yn unol ag argymhellion adolygiad Wachter yn Lloegr; a
- c) sylwi ar gyfleoedd i gryfhau'r llais gwybodeg ar y lefel uchaf yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys adolygu a ddylid, ac os felly, sut y dylid, cryfhau rolau Prif Swyddog Gwybodaeth GIG Cymru a Phrif Swyddog Gwybodeg Cymru ym mhroses benderfynu strategol GIG Cymru.

Derbyn - Mae strwythur ac aelodaeth Byrddau'r GIG, gan gynnwys meddu ar y sgiliau a'r profiad cywir ar lefel Bwrdd, yn cael eu datblygu ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol'. Mae rôl y Prif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol eisoes yn cael ei sefydlu mewn sawl un o sefydliadau'r GIG. Mae Prif Weithredwr GIG Cymru yn lansio rhaglen datblygu a rhwydwaith ar gyfer Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol ym mis Mawrth 2018. Ystyrir rolau arwain a gofynion sgiliau ar draws system gwybodeg iechyd Cymru gyfan fel rhan o'r Adolygiad Llywodraethu a ddisgrifir o dan argymhelliad 6.

Argymhelliad 6 Gwelsom fod y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwylio a herio'r Gwasanaeth Gwybodeg yn wan. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Felindre'n gofyn iddi gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodeg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r opsiynau'n ehangach i gryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Gwasanaeth. Dylai'r trefniadau terfynol sicrhau bod:

- a) y perfformiad a'r cynnydd yn destun craffu annibynnol;
- b) bod y broses yn fwy tryloyw, gyda phapurau a chofnodion trafodaethau'n cael eu rhoi yn y parth cyhoeddus; a
- c) bod llinellau atebolrwydd clir rhwng y Gwasanaeth Gwybodeg a Phrif Weithredwr GIG Cymru a'r Ysgrifennydd Cabinet.

Derbyn - Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen waith i ystyried y model llywodraethu sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth gwybodeg sy'n cefnogi trawsnewidiad digidol ledled Cymru er mwyn darparu gofal cleifion mwy diogel, o ansawdd uwch ac effeithiol, yn seiliedig ar ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol, a'r Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr ydym yn ei ddatblygu ac a gaiff ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried gwaith craffu a thryloywder priodol, ynghyd â llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol.

Argymhelliad 7 Gwelsom nad yw'r adroddiadau cynnydd y bydd y Gwasanaeth Gwybodeg yn eu cyhoeddi ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn cynnig darlun cyflawn na chytbwys. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Gwasanaeth Gwybodeg i wella'r adroddiadau am berfformiad er mwyn cynnig stori fwy cytbwys am yr hyn sy'n dda, ymhle mae yna anawsterau a pham. Dylai'r adroddiadau am berfformiad gynnwys gwybodaeth o'i gymharu â chynlluniau cychwynnol prosiectau, boddhad defnyddwyr a'u pryderon am wasanaethau cenedlaethol sydd ar gael eisoes yn ogystal â'r systemau newydd hynny sy'n cael eu lledaenu.

Derbyn - Mae adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Rheoli Gwybodeg wedi gwella'n ddiweddar, ac mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Gwasanaeth Gwybodeg i gyflwyno adroddiadau gwell yn ystod gwanwyn 2018.

Argymhelliad 8 Mae angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid a sut y dylid darparu'r cyllid ychwanegol y mae cyrff y GIG a'r Gwasanaeth Gwybodeg wedi amcangyfrif y mae ei angen arnynt i wireddu'r weledigaeth ar gyfer cofnod electronig am gleifion. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad cost-budd llawn o'r buddsoddiad arfaethedig, gan gynnwys i ba raddau y gallai arbedion ariannol yn sgil systemau newydd ei gwneud yn bosibl ailgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau sydd ar gael eisoes i'w fuddsoddi mewn systemau gwybodeg newydd.

Derbyn - Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cadarn o'r buddsoddiad sydd ei angen a'r buddion busnes a ragwelir, ar y cyd â'r Gwasanaeth Gwybodeg a Chyfarwyddwyr Cyllid yn gwerthuso modelau cyllido amgen a chyfleoedd i wneud arbedion. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ganlyniad yr adolygiad o'n hymagwedd tuag at ddylunio seilwaith a systemau a ddisgrifir yn ein hymateb i Argymhelliad 1, a'r gwaith parhaus ar flaenoriaethu dan arweiniad y Bwrdd Rheoli Gwybodeg (Argymhelliad 3).

Argymhelliad 9 Er gwneud cynnydd yn ddiweddar, mae lle o hyd i integreiddio cynllunio ariannol tymor canol ar gyfer gwybodeg ledled y GIG. Dylai Llywodraeth Cymru, drwy gydweithio â chyrff y GIG a'r Gwasanaeth Gwybodeg, osod cynlluniau ariannu clir y cytunir arnynt ar gyfer y tymor canol ar gyfer rhaglenni TGCh lleol a chenedlaethol. Dylai hyn gynnwys cydweithio rhwng cyrff y GIG a'r Gwasanaeth Gwybodeg cyn i gyrff y GIG gwblhau eu drafft cyntaf o'u cynlluniau tair blynedd treigl. Dylai hefyd ystyried unrhyw benderfyniad yn y dyfodol am y cyllid y bydd ei angen i wireddu'r strategaeth.

Derbyn - Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig bellach wedi'u hen sefydlu, ac am y tro cyntaf, mae gennym Raglenni Amlinellol Strategol gan bob un o sefydliadau'r GIG, sy'n amlinellu eu blaenoriaethau a'n buddsoddiad ar gyfer y maes Gwybodeg. Mae hyn yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddisgrifio datblygiadau digidol o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a Rhaglenni Amlinellol Strategol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau GIG eraill fel rhan o broses gynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a hefyd drwy gyfarfodydd rheoli cyfrifon rheolaidd. Mae datblygiad cydweithredol y Cynllun Cenedlaethol hefyd yn cyfrannu at waith cynllunio ag iddo fwy o ffocws.

Argymhelliad 10 Mae'r Gwasanaeth Gwybodeg yn defnyddio'r dull Hyblyg fwyfwy wrth ddatblygu meddalwedd. Gallai defnyddio'r dull hwn fod o fudd o ran cwblhau gwaith o ansawdd yn brydlon, ond mae'n dibynnu ar ymgysylltu'n ddwfn â chlinigwyr a defnyddwyr eraill. Mae wedi bod yn anodd sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai'r Gwasanaeth Gwybodeg a chyrff y GIG gydweithio er mwyn:

- a) cryfhau'r berthynas rhwng datblygwyr a chlinigwyr, yn enwedig wrth gynllunio a phrofi systemau a swyddogaethau newydd, er mwyn sicrhau gwell cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ddymunol a'r hyn sy'n bosibl; ac
- b) ymgysylltu â rheolwyr i gael gwybod beth yw eu hanghenion o ran gwybodaeth, yn ogystal â beth yw anghenion clinigwyr.

Derbyn - Mae ymgysylltu â defnyddwyr drwy gylch cyfan datblygu system yn un o egwyddorion allweddol dylunio digidol da. Mae creu gwybodegwyr clinigol (gweler yr ymateb i Argymhelliad 5) o fewn sefydliadau'r GIG, yn darparu dolen gyswllt rhwng clinigwyr a datblygwyr, a bydd yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi gweithio hyblyg a gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid a defnyddwyr. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'n hadolygiadau o ddylunio seilwaith a systemau (Argymhelliad 1) a llywodraethu (Argymhelliad 6), a thrwy ein gwaith parhaus ar y rhaglen i gyflawni'r Strategaeth.

Argymhelliad 11 Mae'r Gwasanaeth Gwybodeg wrthi'n datblygu cynllun gweithlu ond nid oes ganddo gynllun llawn eto, ac mae'n dweud ei fod yn straffaglu i recriwtio a chadw uwch ddatblygwyr oherwydd cystadleuaeth o du'r sector preifat. Dylai Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Gwybodeg a chyrrff y GIG gydweithio i archwilio opsiynau er mwyn sicrhau'r staff a'r datblygwyr TGCh profiadol sydd eu hangen ar y Gwasanaeth o fewn cyd-destun cynllun gweithlu cynhwysfawr a chan ystyried y staff TGCh sydd ar gael i gyrrff y GIG.

Derbyn - Mae'r mater hwn yn ehangach na dim ond Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r anallu i recriwtio a chadw staff TGCh yn broblem ar draws y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Bydd creu Addysg a Gwella Iechyd Cymru ym mis Ebrill 2018, ynghyd â Sefydliad Arloesi Digidol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar (mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) yn helpu i sicrhau a chadw lefel y sgiliau sydd eu hangen. Bydd y cysylltiadau gwell â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, er enghraifft, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a nodi cyfleoedd yn y sector preifat hefyd yn cyfrannu at hyn.

Argymhelliad 12 Gwelsom fod diffyg eglurdeb ynghylch pwy sy'n gyfrifol am wireddu'r buddion a fwriedir yn sgil systemau gwybodeg cenedlaethol a diffyg monitro. Dylai Llywodraeth Cymru, cyrrff y GIG a'r Gwasanaeth Gwybodeg gydweithio i sicrhau bod:

- a) y cyfrifoldeb am wireddu'r buddion yn cael ei ddyrannu'n glir; a
- b) bod cyfrifoldebau a phrosesau clir ar waith ar gyfer monitro'r cynnydd ac adrodd yn ei gylch wrth wireddu'r buddion hynny.

Derbyn - Mae'r Bwrdd Rheoli Gwybodeg, drwy ffrwd waith y dyfodol Strategaeth Cyflawni'r Rhaglen, wedi datblygu fframwaith cyffredin ar gyfer disgrifio a mesur y buddion. Mae rhagor o waith ar y gweill i adolygu pecyn cymorth adnabod buddion presennol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a chofrestru a nodi gwelliannau posibl i berchnogaeth, mesur a gwireddu'r buddion. Mae gwaith eisoes ar y gweill i wella'r broses o lunio Achos Busnes, a fydd yn sicrhau gwell buddion a gwell perchnogaeth o'r buddion, ynghyd â'r gallu i'w nodi a'u gwireddu'n well yn unol â'r fframwaith hwn.

Argymhelliad 13 Gwelsom fod llawer o'r staff yn y GIG yn rhwystredig ynglŷn â rhai o nodweddion ac ansawdd systemau gwybodeg cenedlaethol. Mae gan y Gwasanaeth Gwybodeg broses ar gyfer diweddarau systemau cenedlaethol, ond mae pryderon am yr arafwch a'r diffyg adborth ac fe allai'r Byrddau Cynghori am Newidiadau eu hunain weithio'n fwy effeithiol. Dylai'r Gwasanaeth Gwybodeg adolygu ei broses ar gyfer rheoli ceisiadau am newidiadau ac os oes angen, dylid newid pethau er mwyn:

- a) rhoi adborth eglurach i'r gwasanaeth am sut yr ymdriniwyd â'u ceisiadau ac a ellir disgwyl newidiadau a pha bryd;
- b) parhau i fod yn agored i fân newidiadau a allai gael effaith sylweddol ar wella'r ffordd y bydd defnyddwyr yn defnyddio'r systemau a'u barn amdanynt; a
- c) darparu agendâu a rhaglenni gwaith ar gyfer y Byrddau Cyngori am Newidiadau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio rhagor ar alluogi gwelliannau l systemau sy'n cael effaith.

Derbyn - Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Gwasanaeth Gwybodeg i ofyn iddo weithio mewn partneriaeth â'u rhanddeiliaid i adolygu eu proses ar gyfer rheoli ceisiadau am newidiadau. Bydd cynnydd ar hyn yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd misol gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwybodeg. Bydd ein hadolygiadau i ddylunio'r seilwaith a systemau (Argymhelliad 1) a llywodraethu (Argymhelliad 6) yn helpu i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall

copïau at: Nick Ramsay AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Arloesi, y Grŵp Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Pherfformiad

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee PAC(5)-08-18
P4

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

22 Ionawr 2018

Annwyl Huw

Archwiliad Gwerth am Arian yr Archwilydd Cyffredinol: Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru

Diolch ichi am eich adroddiad ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru. Rwyf yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae tîm yr astudiaeth wedi'i wneud ar hyn dros y 18 mis diwethaf.

Rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod bod gan GIG Cymru weledigaeth glir ar gyfer y cofnod electronig am gleifion yng Nghymru ac, er fy mod yn cydnabod ein bod yn wynebu rhai heriau, rwyf yn hyderus ein bod wedi gwneud camau breision, hyd yn oed yn yr amser ers i'ch tîm gyflawni'r adolygiad, a byddwn yn parhau i yrru gwelliannau yn y dyfodol.

Yn ystod trafodaethau cynnar, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r adroddiad mewn dau gam. Bwriad hyn yw adlewyrchu'r ffaith bod cwmpas yr adolygiad yn ehangach na Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ac fel y cyfryw, mae angen inni ymgysylltu â GIG Cymru a sicrhau bod ein hymateb yn adlewyrchu'r farn ehangach; ac i gydnabod y bydd cyhoeddi'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn llywio ein hymateb.

Mae'r ymateb cychwynnol hwn yn cydnabod y canfyddiadau allweddol ynghylch yr anawsterau sydd ynghlwm wrth sicrhau cyllid digonol i fwrw ymlaen â'r weledigaeth; yr angen i gryfhau prosesau blaenoriaethu; a'r angen i adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer NWIS.

Rydym eisoes wedi cael trafodaethau helaeth am ganfyddiadau allweddol yr adolygiad gyda Chyfarwyddwr NWIS a Phrif Weithredwr arweiniol y GIG dros Wybodeg ac rydym yn ystyried adolygiad ehangach o dirlun llywodraethu gwybodeg.

Mae cyllid a blaenoriaethu gwaith yn gysylltiedig â'i gilydd yn annatod ac felly mae'r gwaith ar flaenoriaethu a'r Cynllun Cenedlaethol, sy'n cael eu goruchwyllo gan Fwrdd Rheoli



Parc Cathays • Cathays Park

Caerdydd • Cardiff

CF10 3NQ

Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Ffôn • Tel 0300 0251182

Andrew.Goodall@llyw.cymru

Gwybodeg GIG Cymru (NIMB), sy'n cynnwys aelodau gweithredol o gyrff y GIG sy'n gyfrifol am Wybodeg, cynrychiolwyr NWIS ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, yn allweddol. Mae'n glir hefyd nad mater i Lywodraeth Cymru yn unig ei ystyried yw hwn, gan mai mater i'r GIG yn bennaf yw'r ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu yng nghyrrff y GIG.

Bydd trafodaeth bellach â Phrif Weithredwyr y GIG ac uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ym Mwrdd Gweithredol GIG Cymru ar 30 Ionawr, ac mae aelodau NIMB yn ystyried beth y mae'r adroddiad yn ei olygu i'w cyrrff, gydag eitem sylweddol ar adroddiad yr agenda ar gyfer cyfarfod NIMB ar 15 Chwefror.

Mae swyddogion hefyd yn adolygu canfyddiadau'ch adolygiad ochr yn ochr â chanfyddiadau'r Adolygiad Seneddol.

Bydd yr holl weithgareddau hyn yn cyfrannu at ymateb cydweithredol, gwybodus a chynhwysfawr i'ch adolygiad y byddaf yn ei ddarparu erbyn 2 Mawrth.

Rwyf yn ymwybodol y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried ei ymateb i'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr ac fe gaiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i hwyluso hynny.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall

copïau at: Nick Ramsay AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Frances Duffy, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Arloesi, y Grŵp HSS David
Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Pherfformiad

Archwilydd Cyffredinol Cymru Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: HVT/2839/caf
Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2018

Annwyl Nick

Rhaglen o astudiaethau gwerth-am-arian

Bydd arnoch eisiau cael gwybod y bydd Swyddfa Archwilio Cymru cyn bo hir yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus i wahodd barn ynghylch pynciau y byddwn efallai yn ystyried eu cynnwys yn ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ni fyddwn yn cynnig rhestr hir o ddewisiadau. Y cyfan y bydd yr ymarferiad hwn yn ei wneud fydd gwahodd atebwyr i dynnu sylw at feysydd sydd o ddi-ddordeb/pryder o'u safbwynt hwy, fel sylfaen o wybodaeth ar gyfer ein gwaith cynllunio cyson. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn – pan fydd fy olynydd yn ei swydd – ceir ymgynghoriad mwy ffurfiol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol.

Yn y cyfamser, dymunaf ddwyn i'ch sylw rai materion eraill y bu staff Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hystyried ar fy rhan, y teimlaf ei bod yn werth adrodd amdanynt yn gyhoeddus. Yn benodol:

- Anfonais gopi i chi'n ddiweddar o'm hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 'Gyflwr Ffyrdd yng Nghymru'. Nodai'r ymateb hwnnw ein bod wedi cwblhau rhai ymholiadau archwilio rhagarweiniol er mwyn deall hanes prosiect **Adran 2 yr A465** yn well, a'r materion sydd wedi effeithio ar y costau ac ar yr amserlen. Rwyf wedi penderfynu ei bod yn werth gwneud ychydig o waith archwilio pellach fydd yn arwain at baratoi adroddiad / memorandwm ar hanes y prosiect. Bydd y gwaith hwnnw yn cymryd

adolygiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r prosiect i ystyriaeth ynghyd â chanlyniad ei gwaith gyda'r contractwr (Costain) i ddatrys y materion oedd yn


destun dadl. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl y ceir adroddiad ar y gwaith hwn cyn i mi orffen fy nhymor fel Archwilydd Cyffredinol.

- Tua diwedd 2017, derbyniais ohebiaeth oedd yn codi pryderon ynghylch gwerth-am-arian y gwariant ar gynllun **MyTravel** yn 2015-16 a 2016-17. Mae MyTravel yn cynnig disgowntiau i bobl ifanc 16-18 mlwydd oed ar deithiau bws yng Nghymru. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau rhai ymholiadau rhagarweiniol gyda Llywodraeth Cymru a chredaf fod y materion a ganfuwyd yn haeddu cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fy mwriad yw crynhoi'r materion hyn mewn adroddiad/memorandwm byr, y gobeithiaf allu ei gynhyrchu cyn gwyliau'r haf. Er hynny, mae hyn yn amodol ar allu cael mynediad buan at beth gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac mae hefyd yn dibynnu ar yr amser fydd ei angen i gytuno ar gywirdeb ffeithiol ein sylwebaeth.

At hynny, byddwch yn cofio bod dogfennau rhaglen waith y Pwyllgor ei hun yn cyfeirio'n ddiweddar at beth gwaith newydd yr oeddwn yn ymgymryd ag ef ar **staffio asiantaeth y GIG**. Rydym wedi penderfynu ymestyn ychydig ar ein cwmpas a'n hamserlen ar gyfer y gwaith hwn, gyda golwg ar ei gwblhau yn hydref 2018. Bwriadwn archwilio dewisiadau ar gyfer allbynnau eraill yma, yn ogystal â'r adroddiad traddodiadol. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar y data sydd gan GIG Cymru ar nifer a chostau staff asiantaeth ynghyd â gwybodaeth am y ffactorau sy'n gyrru'r galw am staff asiantaeth. Bydd yn tynnu sylw at dueddiadau dros gyfnod a'r amrywiadau rhwng cyrff iechyd yng Nghymru o ran y graddau y maent yn defnyddio staff asiantaeth. Byddwn hefyd yn cymharu, lle bo modd, y patrymau a'r tueddiadau gwario yng Nghymru gyda'r rheiny yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn o gymorth i chi cyn ymgynghoriad pellach ynglŷn â'n rhaglenni gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddwn yn hapus i dderbyn unrhyw sylwadau a fo gan y Pwyllgor ar hyn o bryd.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Tudalen 2 o 2 - Rhaglen o astudiaethau gwerth-am-arian - Please contact us in Welsh or English / Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.